Ymyriad	Teithio Cynaladwy (TC)			Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd
				Melyn	Cynnydd dan y targed ond yn bosibl ei gyrraedd
Arwain	Ceri Doyle / Craig Lane	Cyfnod Adrodd	Chw. 1 2019-20	Coch	Cynnydd ymhell islaw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

CAM 1: BGC i fod yn hyrwyddwyr TC: Mae'r astudiaeth o ddichonoldeb o ran fflyd allyriadau isel iawn Gwent a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (gan gynnwys fflyd lwyd) wedi ei chwblhau. Mae sefydliadau wedi gwella technoleg i alluogi gweithio ystwyth a lleihau teithio. Mae ymgynghoriad cyhoeddus o'r strategaeth Ansawdd Aer (AA)/TC wedi ei gwblhau.

CAM 2: Creu amgylchedd lle blaenoriaethir trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo: Mae cyllid gwerth £5.2 miliwn wedi ei gael ar gyfer projectau seilwaith teithio actif ledled y ddinas. Mae canllaw cynllunio atodol (CCA) wedi ei ddatblygu. Mae astudiaeth o ddichonoldeb ynghylch llogi beiciau ar y stryd wedi ei chwblhau. Yn disgwyl yr adroddiad terfynol. Mae gan Bws Casnewydd gyllid ar gyfer bysys allyriadau isel iawn fydd yn ffurfio 15% o'r fflyd.

CAM 3: Annog defnydd Cerbydau Allyriadau Isel Iawn: Mae'r astudiaeth Gwent gyfan o ddichonoldeb wedi ei chwblhau ac wedi adnabod mannau addas ar gyfer pwyntiau gwefru. Bu cais am gyllid yn llwyddiannus i osod mannau gwefru ger ardaloedd preswyl. Mae Sêr ECO yn dal i gael eu cynnig i weithredwyr fflydoedd y ddinas.

Prif Risgiau/Rhwystrau	Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru
Ddim yn defnyddio'r cyfleoedd a ddaw o wrthod ffordd liniaru'r M4	Uchel	Y BGC i gymryd rhan lawn yn y broses o ymchwilio dewisiadau yn lle ffordd liniaru'r M4 a hyrwyddo a hybu dull TC.
Diffyg cyllid parhaol ar gyfer ymyriadau teithio actif mewn ysgolion	Canolig	Roedd cais am gyllid i gyflwyno, gam wrth gam, ddull cyson i bob ysgol gynradd dros 4 mlynedd yn aflwyddiannus. Chwilio am ffynonellau cyllido eraill.
Dim ond un sefydliad BGC sydd wedi ymuno â'r cynllun Sêr ECO	Canolig	Os yw'r BGC i gael ei weld yn arwain drwy esiampl, mae angen i fwy o sefydliadau BGC ymuno â'r cynllun. Hyn i'w drafod yn y BGC yn rhan o'r diweddariad hwn.

Mesurau Perfformiad Allweddol	Targed	Gwirioneddol	RAG
Nifer ysgolion sy'n cynnal rhaglenni teithio actif	9	3	Coch
Cynnydd mewn teithio actif yn yr ysgolion sydd â rhaglen teithio actif	10%	9.4%	Melyn
Sefydliad BGC sydd wedi ymuno â'r cynllun Sêr ECO	30	18	Melyn

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

CAM 1: Gweithredu argymhellion a dysgu gan yr adolygiad fflyd. Angen i sefydliadau unigol ddatblygu gweithdrefnau gweithio ystwyth clir. Dadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad strategaeth AA/TC a mabwysiadu strategaeth. Ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu siarter TC Iach yn debyg i ardal Caerdydd.

CAM 2: Gweithredu'r projectau seilwaith i gyd. Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y CCA TC. Newidiadau i'r seilwaith yn a ger Ysgol Dewi Sant mewn perthynas â'r project Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Bydd gorfodi parcio sifil yn cael ei roi ar waith ledled y ddinas o fis Gorffennaf. Bydd hyn yn gwneud llwybrau cerdded a seiclo'n haws eu defnyddio.

CAM 3: Gosod mannau gwefru mewn meysydd parcio ger ardaloedd preswyl. Parhau gyda Sêr ECO a'i ymestyn. Ymchwilio i gynlluniau rhannu ceir allyriadau isel iawn.